

Sgôp y Cynllun gweithredu:

Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer yr eog (*Salmo salar*) a brithyll (*Salmo trutta*) - yn cynnwys brithyll yr afon, neu frithyll brown, sy'n ffurf o frithyll y môr nad yw'n mudo.

1. SEFYLLFA BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth


Rhyngwladol	Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd ^a (Atodiad II, Atodlen V - yr eog d (mewn dŵr croyw yn unig) Confensiwn Bern (Atodiad III)
DU a Chymru	Rheoliadau Cynefin ^b (Atodlen 3 - yr eog, mewn dŵr croyw yn unig) Deddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw (1975) (fel mae wedi ei addasu) Deddf Eogiaid (1986) ^c SoCC ^d
Gwynedd	Dim y gwyddys amdanynt

1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Mae gan yr eog ddsbarthaid eang, yn yr Iwerydd i'r gogledd o Biscay, Sianel San Siôr, Môr y Gogledd, a Môr y Baltig. Ceir rhan helaeth o holl stoc Ewropeidd yn y DU, gydag afonydd yr Alban yn arbennig yn cynnig cadarnle i'r rhywogaeth^e.

Mae yr eog yn rhywogaeth sydd ar gael ar led yn y DU a gwelir ef mewn cannoedd o afonydd, llawer gyda rhediadau oedolion o fwy na 1000. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon diweddaraf o faint poblogaeth claddu y DU i lawr tua 50% (ICES 2000) ar y cyfartaledd 10 mlynedd^e Ceir poblogaethau sy'n claddu yn y rhan fwyaf o afonydd Cymru, yn fwyaf arbennig Afon Gwy, Wysg, Teifi, Dyfi a'r Ddyfrdwy^f.

Ceir brithyll môr yn yr Iwerydd i'r gogledd o Sbaen, Sianel San Siôr, Môr y Gogledd, a Môr y Baltig. Mae brithyll yr afon, neu frithyll brown, yn ffurf o frithyll y môr nad yw'n mudo



1.3 Sefyllfa yng Ngwynedd^g

Ceir rhediadau o'r eog mewn nifer o afonydd: Llifon, Carrog, Ogwen, Seiont, Gwyrfai, Llyfni, Erch, Dwyfor, Glaslyn, Mawddach, Dysynni, Dyfi a Dwryd. Yn Afon Gwyrfai ceir poblogaeth o eog sydd heb eu hecsplitio gyda rhediad nodweddiadol hwyr, ac mae data electrobysgod yr Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos presenoldeb poblogaethau ifanc iach i lawr yr afon o Lyn Cwellyn (gweler adran 4.1).

Mae brithyll y môr i'w cael yn yr afonydd a restrir uchod ac yn y rhan fwyaf o afonydd a nentydd eraill yn yr ardal. Ceir brithyll yr afon hefyd yn yr holl afonydd yn cynnwys y Daron, Soch, Rhyd-hir, Erch, Wen, Llyfni, Cegin, Ogwen, Ddu ac yn y rhan fwyaf o lynnoedd, yn cynnwys Llyn Padarn, Llyn Cwmorthin, Llyn Manod, Llyn Ganallt a Llyn Bowyd. Yn Llyn Padarn credir bod poblogaetho frithyll sy'n magu i lawr yr afon o'r llyn, yn hytrach nag i fyny'r afon ac mae'r rheolwyr presennol yn gwylio'n ofalus. hyn yn arwydd o hil hynafol, fel arfer wedi ei gyfyngu i hen lynnoedd rhewlifol a chan fod brithyll yr afon gwyllt fel arfer yn claddu mewn afonydd sy'n gwagio i'r llyn, gall hon fod yn hil sydd yn enetaidd wahanol i frithyll eraill.

Dirywio mae daliadau o frithyll ac eog mudol yng Ngwynedd, ond mae brithyll yr afon yn ymddangos fel petai'n cynnal niferoedd cyson. Arweiniodd arllwysiad mawr o Waith Aur Gwynfynydd i'r Afon Mawddach yn 1984 at golled o dros 2,000 o eogiaid a brithyll llawn-dwf ynghyd â llawer mwy o rai ifanc. Ar ôl i'r gwaith gau yn 1999, cafwyd arllwysiad bychan o ddŵr o'r gwaith, ond fe llwyddodd Asiantaeth yr Amgylchedd i rwystro'r llif. Ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Mawddach yn dilyn y digwyddiad hwn, ac mae wedi llwyddo i reoli'n effeithiol y poblogaethau lleol.

^a Gorchymyn Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.

^b Rheoliadau Cadwraeth Ewropeidd (Cynefinoedd Naturiol) 1994

^c Amddiffyn stociau pysgod rhag eu potsio

^d Rhestr Pryder Cadwraeth Rhywogaeth Prydain

^e <http://www.jncc.gov.uk/ProtectedSites/SACselection/>

^f Bioamrywiaeth - Awdit Rhywogaeth i Gymru (Biodiversity - A Species Audit for Wales).

^g O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb where specified otherwise

2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YMA YNG NGWYNEDD^h

- Llygredd dŵr, yn cynnwys goferiad amaethyddol gwasgaredig o bryfleiddiaid, nitradau, gwastraff fferm; llygredd pwynt ffynhonnell yn cynnwys dadlwythiad carthffosiaeth, draenio o weithfeydd chwarel a mwyngloddio; mae'r effeithiau yn uniongyrchol (effeithiau gwenwynlyd) ac anuniongyrchol (dadocsigeneiddio dŵr drwy ewtroffeiddiad)
- Daliadau afon wedi eu asideiddio - yn debyg o gyfyngu ar oroesiad pysgod ieuanc mewn rhai rhannau o afon neu nant yn ystod amodau o lifeiriant
- Llaidd wedi erydu o safleoedd cyfagos (o ganlyniad i arferion rheolaeth mewn darnau o afonydd, er enghraifft gor-bori, coedwigo) yn gallu mygu cynefinoedd cenhedlu pwysig
- Mae lledaeniad planhigion estron, yn enwedig canglwm Siapaneaidd, yn broblem ar lawer o ddaliadau afonydd, gan eu bod yn cystadlu ac yn curo rhywogaethau glan yr afon cynhenid a gallant achosi erydu sylweddol.
- Gwaith afonydd yn gallu achosi diraddiad cynefinoedd (sy'n arbennig o bwysig yn achos safleoedd claddu, a lle mae'r amseru yn cyd-ddigwydd a chladdu) neu greu rhwystrau i bysgod ddychwelyd (e.e. coridau neu argaeau aberol).
- Mae stocio afonydd gyda brithyll sydd ddim yn rhai cynhenid yn effeithio ar gyfanrwydd genetidd y boblogaeth leol
- Dal pysgod yn anghyfreithlon a dal yn atodol - mewn dyfroedd arfordirol ac mewnafonydd. Ar hyd arfordir Gwynedd, gellir 'potsio' brithyll y môr ac eogiaid neu weithau eu dal yn ddamweiniol gan bysgotwyr draenog y môr a rhywogaethau môr eraill.
- Effeithiau posib o newid mewn tymheredd byd-eang ar dymheredd y môr.
- Effeithiau pysgodfeydd rhyngwladol, yn cynnwys Iwerddon, Yr Ynys Las ac Ynysoedd y Faroe, ar eogiaid a brithyll y môr ar y rhan morol o'u cylch bywyd.

3. CGR A CGC PERTHNA SOL YNG NGWYNEDD

Gwastatiroedd lleidiog, Coridorau afonydd, Llynnoedd, pyllau a ffosydd.

Dyfrgi, Llygoden ddŵr, Torgoch, Lampreiod, Misglen berlog yr afon, Llyriad nofiadwy, Pelenllys.

4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall yr eog a brithyll y môr fodoli mewn cynefinoedd y gellir eu hadnabod fel safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, neu yn ddynodedig fel SoDdGAau, ymgeisydd ACA neu AGA. Mae'r boblogaeth o yr eog yn Afon Gwyrfai yn un o'r prif resymau pam y detholwyd Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn fel ymgeisydd ACA.

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Paratowyd cynlluniau gweithredu eogiaid ar gyfer eogiaid a brithyll y môr i afonydd Seiont, Ogwen, Dwyfor, Dwyrdd, Mawddach, Dysynni, Dyfi a Glaslyn. Amcan y rhain yw cwrdd, ar lefel leol, â phrif nodau Strategaeth Rheoli Eogiaid Cenedlaethol (Awdurdod Cenedlaethol Afonydd, 1996), sydd wedi eu targedu'n bennaf at sicrhau iechyd y stoc tra'r un pryd yn gwella daliadau a'r enillion economaidd i'r pysgodfeydd a ddaw yn sgil hynny. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth a chynigion i gynnal a gwella pysgodfeydd brithyll y môr.
- Gweithredwyd ar fylchau pysgod a thwnelau dargyfeirio i hwyluso mynediad i nant Peris.
- Mae Menter Pysgota Cynaliadwy Gwynedd yn defnyddio cyllid Amcan 1 i wella cynefin rhai o ddaliadau afon Gwynedd sy'n bwysig i bysgodfeydd.

^h Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sydd yn effeithio ar gynefinoedd y rhywogaethau yma

- Mae'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn rhedeg prosiect Dŵr i Fywyd Gwyllt (gynt yn Brosiect Dyfrgwn ac Afonydd) ar draws y Deyrnas Gyfunol, ac mae'n amcanu at gynnal gwaith cadwraethol gyda chymunedau lleol mewn cynefinoedd glannau afonydd a thir gwlyb. Ar hyn o bryd, mae rheolwr i Gymru, a bydd swyddog prosiect Gogledd Cymru yn ymuno gydag ef yn fuan.
- Fel rhan o Brosiect Afonydd Glan (Cadw Cymru'n Daclus), mae ar hyn o bryd bum grŵp Gofal Afon yng Ngwynedd (tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri)
- Is-ddeddfau Pysgodfeydd Môr Lleol

4.3 Archwilio, ymchwilio a monitro

- Cynhelir asesiadau ansawdd cyffredinol bob pum mlynedd gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n dynodi ansawdd y dŵr ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yr holl brif ddyfrffyrdd
- Arolygir poblogaethau eogiaid a brithyll y môr oddi mewn i bob daliad mewn rhaglen bum-mlynedd olyniaethol fel rhan o Raglen Monitro Eogiaid Ifanc Rhanbarthol. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd arolygu ar is-afonydd, sy'n brif safleoedd claddu a meithrin.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I ddiogelu, cynnal a gwella'r poblogaethau presennol o yr eog a brithyll y môr (yn cynnwys brithyll yr afon) a'u cynefinoedd cysylltiedig, yn enwedig safleoedd claddu a meithrin.
2. I sicrhau cyfanrwydd genetig y stoc gynhenid o frithyll y môr a brithyll yr afon.
3. I gynyddu ymwybyddiaeth ymysg pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill o goridorau afonydd, aberoedd a llynnoedd sy'n gysylltiedig âc eogiaid.
4. I ddefnyddio eogiaid fel rhywogaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd rheolaeth briodol o'r cynefinoedd cysylltiedig

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ⁱ
Polisi a deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn mannau sensitif yn cydfynd â chadwraeth eogiaid TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid Perthnasol
2	Cynnwys gweithrediadau cadwraethol ar gyfer eogiaid a brithyll y môr yn holl gynlluniau priodol yr AA a gyhoeddir yn y dyfodol TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA
3	Sicrhau fod cynlluniau AA priodol yn eu lle ar gyfer SoDdGau ble y gwyddys bod eogiaid yn bresennol EAW	AA, CCGC
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
4	Pan mae bylchau pysgod yn bodoli, sicrhau eu cynnal a'u diogelu oddi wrth broblemau posib o'r afon uwchlaw, yn cynnwys tynu dwr o'r afon. TARGED: Cyfredol	AA, CCGC
5	Ystyried darparu bylchau pysgod ychwanegol yn dibynnu ar ganlyniadau arolygon pysgod yn y dyfodol TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA CCGC,
Cyngor		
	Dim	
Arolwg, ymchwil a monitro		
6	Parhau gyda'r rhaglen monitro eogiaid gan yr AA TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA, CCGC, CG

ⁱ Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi mewn teip du, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
7	Annog pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill o'r cynefinoedd perthnasol i adrodd am unrhyw ddaliadau neu arsylliadau o'r salmonidau, trwy gyhoeddi erthyglau mewn cylchgronau perthnasol a sgwrsio gyda grwpiau perthnasol (e.e. clybiau pysgota, grwpiau Prosiect Afonydd Glan, a chanolfannau Chwaraeon Dŵr yng Ngwynedd TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA, CG,
8	Codi ymwybyddiaeth ymhlith pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill o'r cynefinoedd perthnasol o'r materion cadwriaethol sy'n gysylltiedig â eogiaid, trwy gyhoeddi erthyglau mewn cylchgronau perthnasol a sgwrsio gyda grwpiau perthnasol (e.e. clybiau pysgota, grwpiau Prosiect Afonydd Glan, a chanolfannau chwaraeon dŵr yng Ngwynedd TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA, CG,

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner ar gyfer CGR:

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cadw Cymru'n Daclus

Cyngor Gwynedd (CG)

7.3 Cyfleon

Defnyddwyr hamdden, Pysgotwyr, Grwpiau Prosiect Afonydd Glan

8 DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Tine Sehemer Cyd-awdur: Nicola Lewis

Ymgynghorwyr: Richard Brassington (AA), Mark Balaam (CG)

Darluniau llinell: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AGA Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

Fersiwn 1, 2004